

## Trawsnewidiadau arfaethedig...

### YSGOL UWCHRADD WHITMORE

Adeilad newydd  
gwerth £30.5m

### YSGOL UWCHRADD PENCOEDTRE

Adeilad newydd  
gwerth £34.6m

### YSGOL GYMRAEG BRO MORGANNWG

Gwaith ailwampio ac  
estyniad gwerth £21.4m

### YSGOL GYMRAEG SANT BARUC

Adeilad newydd  
gwerth £7.4m

### DARPARIAETH GYNRADD GORLLEWIN Y FRO

Adeilad newydd  
gwerth £12.6m

## Trawsnewidiadau sydd ar y gweill...

- DARPARIAETH GYNRADD Y BONT-FAEN (I)
- DARPARIAETH GYNRADD PENARTH
- CANOLFAN DYSGU A LLESIANT
- YSGOL Y DERI
- YSGOLION FFYDD 3-16
- DARPARIAETH FEITHRIN



## Dweud eich dweud!

Mae rhieni, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn cael eu cynnwys ymhob cam o'r broses i weddnewid ysgol, o'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hyd at yr arolygon gwerthuso ar ôl i'r ysgol agor.

Anghenion dysgwyr y presennol a'r dyfodol sydd wrth galon dyluniad pob ysgol. Mae cyfle i ddisgyblion ddysgu mwy am eu cyfleusterau newydd a'r diwydiant adeiladu drwy gydol y broses adeiladu. Mae cyfleoedd cyffrous ar gael i fod yn llysgenhadon adeiladu, i ymweld â safleoedd ac i fynd ar brofiad gwaith.

## Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif 21st Century Schools and Colleges



**AECOM**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Dysgu mwy!


01446 709 828

[21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk)

[www.valeofglamorgan.gov.uk/21st-Century-Schools](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/21st-Century-Schools)

(Mae croeso i chi ohebu yn Saesneg. Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.)

# Ysgolion 21ain Ganrif



*GWEDDNEWID ADDYSG LEDLED  
BRO MORGANNWG*



Mae Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysg ar hyd a lled Cymru.

Mae'n broiect unigryw ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, colegau ac awdurdodau esgobaethol.

Cynigir buddsoddi dros £135 miliwn mewn ysgolion ledled Bro Morgannwg rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2024.

## GWEDDNEWID AMGYLCHEDDAU DYSGU...

- Dylunnir ysgolion newydd i fodloni safon Rhagorol BREEAM; sy'n cynnwys codi adeiladau sy'n effeithlon o ran ynni, gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a lleihau cost carbon gwaith adeiladu.
- Lleoedd dysgu gwell ar gyfer yr 21ain Ganrif; yn cynnwys cyfleusterau TGCh, ystafelloedd dosbarth arbenigol a chyfleusterau dysgu awyr agored.
- Amgylcheddau dysgu hyblyg, sy'n galluogi mynediad i bawb ac yn caniatáu i athrawon ganolbwyntio ar ddeilliannau dysgu.
- Sicrhau system galw a chyflenwi effeithlon o ran lleoedd yn ysgolion Bro Morgannwg.

## GWEDDNEWID CYMUNEDAU...

- Mae'r rhaglen adeiladu yn defnyddio cadwyni cyflenwi lleol, yn cefnogi busnesau bach ac yn cynnig cyfle i weithwyr newydd ennill sgiliau a phrofiad drwy brentisiaethau.
- Gall grwpiau cymunedol lleol wneud cais am gyfraniadau ac amser gwirfoddoli ar y projectau a gaiff eu cyflawni gan gcontractwyr adeiladu.
- Gall disgyblion a'r gymuned ehangach gael mynediad at fannau gwyrdd, cyfleusterau hamdden a pherfformio ac ystafelloedd cyfarfod o ansawdd.
- Bydd costau cynnal a chadw'n is, a daw cyfleoedd i ysgolion greu incwm drwy logi eu cyfleusterau, ac felly buddsoddi mwy mewn dysgu.
- Mae'r rhaglen yn hybu pynciau "STEM" (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) drwy ymglymiad ysgol a chwricwlwm.

## Rhai o'n projectau gweddnewid sydd wedi eu cwblhau...

Mae rhagor o wybodaeth ar ysgolion sydd eisoes wedi eu gweddnewid ar ein gwefan.



### YSGOL GYNRADD OAK FIELD, 2015

*"Mae gennym ardaloedd dysgu modern, gyda digonedd o adnoddau, nawr, ac mae digon o le a golau. Mae plant wrth eu bodd yn dysgu dan do ac yn yr awyr agored."*

### YSGOL GYMRAEG DEWI SANT, 2015

*"Mae'r gofod canolog yn galon i'r adeilad, ac yn fan delfrydol i ddysgu gwahanol agweddau ar y cwricwlwm – ynddo rydyn ni wedi creu ardal grefftau, llyfrgelloedd ffuglen a ffeithiol, a pharth TGCH."*



### CYMUNED DDYSGU PENARTH, 2014 (YSGOL ST CYRES AC YSGOL Y DERI)

*"Mae'n fwy nag adeilad, mae'n gymuned, y man lle rydyn ni'n cwrdd â ffrindiau, y man lle rydyn ni'n datblygu."*

### YSGOL GYFUN Y BONT-FAEN, 2010

*"Mae hwn yn adeilad sy'n croesawu ei ddefnyddwyr, mae'n ein hysbrydoli ni ac yn parchu ein hanghenion, ein huchelgeisiau a'n dyheadau."*

